OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 797

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

## RHAN 3

## Trosolwg a chraffu

*Dyletswyddau mewn perthynas â throsolwg a chraffu*

**Dyletswydd i roi sylw**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) rheoliad 8 yn gymwys, a

(b) y pwyllgor yn cyhoeddi yr adroddiad neu'r argymhelliad o dan—

(i) adran 21B(2) o Ddeddf 2000;

(ii) rheoliad 13(2) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.

(2) Rhaid i'r cyd-bwyllgor corfforedig—

(a) ystyried yr adroddiad neu'r argymhelliad, a

(b) cyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad neu'r argymhelliad wrth arfer ei swyddogaethau.

(3) Rhaid i ddatganiad o dan baragraff (2)(b) gael ei gyhoeddi cyn diwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir yr adroddiad gan y pwyllgor.

(4) Nid yw rheoliad 13 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 (cyflawni swyddogaethau gan bersonau eraill)(**1**) yn gymwys i'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (2)(a).

(**1**) O.S. 2021/1349 (Cy. 348).